Maternal Mental Health Alliance

Crynodeb Gweithredol

Gofal Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol yn y DU



Mai 2023

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r Gynghrair Iechyd Meddwl Mamol (MMHA) yn mapio lefelau gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol (PMH) ledled y DU ers 2015. Gan ddefnyddio safonau ansawdd a grëwyd gan Rwydwaith Ansawdd Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (PQN) i ddelweddu lefelau darpariaeth, mae'r mapiau hyn yn siartio'r loteri cod post y mae menywod, babanod, a theuluoedd wedi ei wynebu wrth gael mynediad at ofal hanfodol sy'n achub bywydau yn eu hardal leol.

Ochr yn ochr â diweddaru'r mapiau, cynhaliodd y MMHA gais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) i archwilio dyraniad a gwariant cyllideb ar wasanaethau cymunedol PMH arbenigol.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynnig cipolwg ar gyflwr gofal PMH arbenigol ledled y DU yn 2022/23. Dyma grynodeb o'n canfyddiadau, mae'r briff llawn, gan gynnwys mapiau, dadansoddiad, ein dull, a chyfeiriadau llawn i'w weld yma.

Mae'n hanfodol cynnal momentwm a chyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol (PMH). Mae'r MMHA yn parhau ag ymroddiad i weithio'n agos gydag aelodau, Hyrwyddwyr Profiad Byw, a phartneriaid cenedlaethol a lleol i hyrwyddo cynnydd parhaus.

Ni fyddwn yn stopio nes bod gan BOB menyw, baban, a theulu y mae problemau PMH wedi effeithio arnynt fynediad teg at ofal a gwasanaethau tosturiol sy'n diwallu safonau ansawdd.

Ers i'r set ddiwethaf o fapiau gael eu llunio mae'r cynnydd gwych wedi parhau a chafodd gwasanaethau PMH arbenigol eu hehangu. Er bod cyflymder y newid yn amrywio ar draws gwledydd Prydain, mae'r ymrwymiad i PMH a datblygiadau ledled y DU i'w croesawu'n fawr ac yn dangos, pan roddir sylw arbennig, y gall mwy o fenywod, babanod a theuluoedd gael mynediad at ofal sy'n newid bywydau.

Wrth ddiweddaru'r mapiau a chreu'r briff hwn, nid yw'r MMHA yn ceisio enwi gwasanaethau penodol a chodi cywilydd arnynt. Yn hytrach, mae'n ceisio gwneud yn siŵr y cedwir ac yr adeiledir ar y cynnydd mewn darpariaeth PMH arbenigol yn hytrach na bod mewn perygl o fynd ar yn ôl. Er gwaethaf y dirwedd hynod o anodd, rydym yn parhau i glywed gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y rheng flaen, gan fenywod a theuluoedd ac o'r rhai sy'n gweithio o fewn y system, bod y mapiau hyn a'r sylw a ddaw yn eu sgil yn ddefnyddiol.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol ym mhob gwlad sicrhau bod adnoddau a ddyrannwyd yn cyrraedd gwasanaethau clinigol, fel bod mamau, babanod, a'u teuluoedd ledled y DU yn gallu cael mynediad at gymorth a gofal PMH arbenigol o ansawdd uchel lle bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Dr Alain Gregoire, Llywydd MMHA

Y cyd-destun presennol

SErs y tro diwethaf i'r MMHA lunio mapiau o wasanaethau PMH arbenigol yn 2019/20, mae pob un o'r pedair gwlad yn y DU wedi cyflawni cynnydd gwych. Mae pob gwlad wedi gwneud ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r bylchau amlwg sy'n bodoli yn y gwasanaethau hanfodol hyn, gan arwain at lefelau uwch o ran cyllid. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at ehangu gwasanaethau PMH arbenigol, sy'n trawsnewid bywydau menywod, babanod, a theuluoedd.

Fodd bynnag, mae heriau sylweddol i'w datrys o hyd.

Mae'r gwasanaeth iechyd a'r sector cymunedol gwirfoddol yn darparu gofal o dan bwysau digynsail, sydd wedi'u dwysáu gan effeithiau parhaus y pandemig.

Ar hyn o bryd nid yw pob mam, babi a theulu yn derbyn y gofal angenrheidiol. Gall hyn fod oherwydd diffyg darpariaeth, yn ogystal â stigma ac unigedd. I rai cymunedau a grwpiau, gall fod yn arbennig o anodd cael mynediad at ofal o ansawdd. Yn ôl ymchwil, mae menywod Du a lleiafrifoedd ethnig, mamau ifanc, a'r rhai sy'n wynebu cam-drin domestig neu nifer o anfanteision, yn parhau i brofi canlyniadau iechyd meddwl mamol gwaeth.

Ar adeg pan fo'r galwadau ar wasanaethau iechyd meddwl mor uchel, mae'n hanfodol bod ymrwymiad i wasanaethau PMH arbenigol yn parhau, a bod cynnydd yn cael ei gynnal.

Y dirwedd ariannu

Mae'r pedair gwlad wedi cynyddu dyraniad cyllidebau ar gyfer gwasanaethau PMH arbenigol ar lefel genedlaethol. O'r 70 ardal leol a ymatebodd i'n cais Rhyddid Gwybodaeth, cynyddodd 89% eu cyllideb PMH arbenigol o 2020/1 i 2022/3. Ond, nododd cyfran sylweddol o ardaloedd lleol y bydd tanwariant yn 2022/3.

	% o ardaloedd sy'n rhagweld tanwariant ar gyfer 2022/3	% sy'n nodi materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu fel y prif reswm
Lloegr	73%	55%
Gogledd Iwerddon	60%	100%
Yr Alban	46%	46%
Cymru	57%	71%
Cyfanswm y DU	**66%**	**58%**

Nodwyd heriau'r gweithlu fel y prif ffactor sy'n effeithio ar wariant, ond dywedodd timau wrthym yn gyson nad oeddent wedi derbyn eglurder am yr arian ar gyfer eu gwasanaethau neu fod cyllid yn cael ei ddyrannu'n rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol neu gydag ansicrwydd y byddai'n parhau, ac mae pob un ohonynt yn gwneud recriwtio yn anodd neu'n amhosibl.

Mae'r heriau rhyfeddol i'r gweithlu ar draws y DU a thrwy'r system iechyd yn hysbys iawn. Fodd bynnag, heb ei ddyraniad yn amserol a heb ymrwymiad rhesymol i arian yn y dyfodol, ni all timau gynllunio eu gwaith yn effeithiol, nid yw'r broses recriwtio yn gallu mynd yn ei blaen ac mae rolau y mae taer angen amdanynt yn aros yn wag, ac mae pob un ohonynt yn cyfyngu ar y cymorth sydd ar gael i deuluoedd ac yn cynyddu'r pwysau ar weithlu sydd eisoes dan bwysau.

"Rydyn ni'n gobeithio y byddwn ni'n derbyn buddsoddiad yn Ebrill 2023 ond ar hyn o bryd ni allwn wneud cynlluniau a fyddai'n cynyddu ein cyfradd mynediad heb wybod a fyddwn ni'n derbyn buddsoddiad."
Gweithiwr gofal iechyd

Ymrwymiadau, cynnydd, a risgiau yn ôl gwlad

Gweler y prif adroddiad am ddadansoddiadau ardal manwl ar gyfer pob gwlad.

Cymru

Ymrwymiadau a chynlluniau ers 2019

Yn ôl y Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl gan Lywodraeth Cymru, mae PMH yn flaenoriaeth allweddol, ac mae cyllid wedi'i ddyrannu i gefnogi datblygu gwasanaethau PMH arbenigol ym mhob Bwrdd Iechyd. Mae Llwybrau Cymru Gyfan wedi cael eu datblygu i amlinellu'r gofal y dylai menywod a theuluoedd ei dderbyn. Agorwyd Uned Mam a Baban dros dro.

Doedd dim un o Fyrddau Iechyd Cymru wedi cyrraedd Safonau Math PQN 1.

Canfyddiadau Rhyddid Gwybodaeth

Yn ôl ein cais rhyddid gwybodaeth, cynyddodd pob un o'n saith Bwrdd Iechyd eu cyllideb ar gyfer gwasanaethau PMH arbenigol hyd at 2022/3 i ychydig dros £5 miliwn, sef cynnydd o tua £2.7 miliwn yn 2020/1.

Ond mae 57% o fyrddau iechyd Cymru yn rhagweld y bydd yna danwariant yn 2022/23, gyda phum Bwrdd Iechyd yn dweud mai recriwtio a swyddi gwag yw'r ffactor mwyaf.

Risgia

- **Buddsoddiad cynaliadwy**
  Sufficient, sustainable funding needs to be in place to 'Turn the Map Green' in Wales and enable all Health Boards to deliver services that meet quality standards.

- **Cerrig milltir a fethwyd yng Nghynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019-22**
  Mae angen ymrwymiadau brys yn y strategaeth iechyd meddwl sydd ar ddod i fynd i'r afael â bylchau, megis cydnabod anghenion tadau a phartneriaid, a lefelau anwastad cydymffurfiad y tîm cymunedol â safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

- **Darpariaeth Uned Mam a'r Baban (MBU)**
  Dal i aros am ganlyniad y gwerthusiad a barhaodd am flwyddyn o uned interim Uned Gobaith a sefydlu opsiwn MBU hygyrch i fenywod yng Ngogledd Cymru.

- **Digon o le i wasanaethau roi cymorth**
  Mae angen digon o le mewn clinigau fel y gall timau fodloni safonau ansawdd ar gyfer y gofal sy'n cael ei ddarparu i fenywod.

Gogledd Iwerddon

Ymrwymiadau a chynlluniau ers 2019

Mae'r Llywodraeth wedi dweud yn glir eu bod wedi ymroi i wella gwasanaethau PMH arbenigol, fel y dengys eu Cynllun Gweithredu a'u Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl ar gyfer 2022/23. Mae arian wedi'i ddyrannu ar y lefel genedlaethol er mwyn i bob Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod â thimau cymunedol.



Nis oedd yr un o Fyrddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon yn bodloni Safonau Math 1 PQN.

Canfyddiadau Rhyddid Gwybodaeth

Yn ôl ein cais Rhyddid Gwybodaeth, cynyddodd pob un o'r pump o Fyrddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon eu cyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol o 2020/1 i 2022/3, a dyrannwyd dros £2.6 miliwn. Mae'n galonogol gweld rhai gwasanaethau cymunedol PMH yn dechrau darparu gofal, ond mae taith o'n blaenau o hyd.

Risgia

- **Amrywiad o ran datblygiad timau cymunedol arbenigol**
  Mae'n seiliedig ar ddiffyg lle neu le is-safonol, rhwystrau recriwtio a dealltwriaeth wahanol ar draws ymddiriedolaethau ynghylch ymrwymiad ariannol.

- **Cyllid a gweithredu strategaethau**
  Ar hyn o bryd nid oes cadarnhad y bydd cyllid ar gael i weithredu'r Strategaeth Iechyd Meddwl yn llawn ac i sicrhau y cymerir camau allweddol ar PMH.

- **Gweithlu**
  Mae gwasanaethau PMH arbenigol wedi cael heriau o ran recriwtio. Mae angen cwblhau'r Cynllun Gweithlu ar frys, a rhyddhau cyllid i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi.

- **Dim Uned Mam a Baban hyd yma**
  Er gwaethaf ymrwymiadau, nid oes amserlen glir, ceir hefyd bryderon am ei lleoliad, am yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer yr uned ac am recriwtio'r gweithlu.

- **Dim Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon**
  Nid oes penderfyniadau yn cael eu gwneud ar lefel Gweithrediaeth, ac mae cyllid yn cael ei oedi. Mae menywod a theuluoedd angen gweithredu gan Weithrediaeth weithredol, gan weithio gydag Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol, Gweinidogion, a'r hyrwyddwr Iechyd Meddwl.

Lloegr

Ymrwymiadau a chynlluniau ers 2019

Mae pob maes yn Lloegr wedi cael arian gan GIG Lloegr yn benodol ar gyfer gwasanaethau PMH arbenigol ac i helpu i gyflawni uchelgeisiau Cynllun Tymor Hir. Bydd yr uchelgeisiau hyn yn ehangu'r ddarpariaeth i gefnogi mwy o fenywod, babanod, a theuluoedd, bydd yn darparu gofal arbenigol o'r geni i 24 mis ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol i dadau ac i bartneriaid.



Bodlonodd 10 (16%) o dimau yn Lloegr Safonau Math 1 PQN ac maent wedi dechrau cyflawni pob un o'r pedwar prif uchelgais sydd yng Nghynllun Tymor Hir GIG Lloegr.

Canfyddiadau Rhyddid Gwybodaeth

Yn ôl ein cais rhyddid gwybodaeth, roedd pob un o'r 45 Ymddiriedolaeth yn Lloegr a ymatebodd i'n cais wedi cynyddu ei chyllideb ar gyfer gwasanaethau PMH arbenigol. Dyrannwyd dros £122miliwn i'r gwasanaethau hyn yn Lloegr yn 2022/3 (cynnydd o ychydig dros £77miliwn yn 2020/1), ond rhagwelir y bydd y gwariant a ragamcanwyd yn is oherwydd problemau recriwtio.

Er bod cynnydd sylweddol a'r ymrwymiad parhaus i wella gofal PMH yn y Cynllun Tymor Hir i'w groesawu, rydym yn gwybod bod angen mwy i sicrhau newid gwirioneddol i fenywod a theuluoedd.

Risgia

- **Cyllid ac ymrwymiad lleol**
  Mae cystadleuaeth am gyllid yn lleol. Mae rhai timau'n ei chael hi'n anodd ar y lefel leol i gael mynediad at yr arian a fwriadwyd ar gyfer gofal PMH arbenigol gan fod rhywfaint o'r arian yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth ofal iechyd meddwl mamau a babanod.

  Mae sylwadau a gafwyd oddi wrth nifer o dimau yn nodi bod ansicrwydd neu anniogelwch cyllid yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i recriwtio staff, sy'n golygu bod rhai timau PMH arbenigol yn gweithio o dan bwysau i gyflawni targedau heb ddigon o adnoddau.

- **Dim digon o le**
  Ers y pandemig a chyda mwy o wasanaethau bellach yn cael eu cynnig yn rhithwir, nid oes gan rai timau ddigon o le ar gyfer clinigau a swyddfeydd, sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau a morâl staff.

Yr Alban

Ymrwymiadau a chynlluniau ers 2019

Er mwyn gwella gofal iechyd meddwl amenedigol a babanod yn yr Alban, darparwyd cyllid cenedlaethol, a ffurfiwyd Bwrdd Rhaglen i benderfynu ar ei ddyraniad. Datblygwyd llwybrau gofal PMH, er mwyn dangos y gofal priodol y dylai menywod a theuluoedd ei dderbyn, waeth ble yn y wlad y maent yn byw.



Roedd dau o bob 14 (14%) o Fyrddau Iechyd yr Alban yn bodloni Safonau PQN Math 1.

Canfyddiadau Rhyddid Gwybodaeth

Yn ôl ein cais rhyddid gwybodaeth, cynyddodd 11 o Fyrddau Iechyd yr Alban eu cyllideb ar gyfer gwasanaethau PMH arbenigol i dros £5.7 miliwn yn 2022/3. Fodd bynnag, roedd 46% yn rhagweld y byddai tanwariant yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd iddynt.

Risgia

- **Cyllid digonol**
  Mae cwestiynau ynghylch a fydd cyllid yn ddigon i sicrhau bod pob menyw a theulu yn gallu cael mynediad at ofal PMH arbenigol o safon.

- **Ymrwymiad a goruchwyliaeth barhaus**
  Does dim cynlluniau clir wedi'u cadarnhau ar gyfer monitro a chraffu yn y tymor hir ar ôl i Fwrdd y Rhaglen orffen yng Ngwanwyn 2023.

- **Diffyg amserlenni ar gyfer sefydlu gwasanaethau llwybrau gofal**
  Mae yn yr Alban ar hyn o bryd yn gweithio ar gyrraedd lefelau gofal a argymhellir gan y Rhwydwaith PMH ar gyfer pob ardal. Fodd bynnag, mae hwn yn dal i fod yn 'waith ar y gweill'. Ar hyn o bryd nid oes llinell amser glir ar gyfer y dyddiad cwblhau, heb sôn am ehangu gwasanaethau i fodloni safonau ansawdd math 1 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

- **Darpariaeth Uned Mam a'r Baban**
  Bwriedir cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ganfod a oes digon o welyau ar gael i fenywod a theuluoedd yn yr Alban ac a ydynt yn hygyrch, yn enwedig i fenywod sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac ar yr ynysoedd.

Argymhellion allweddol i gynnal cynnydd

1. Sicrhau bod cyllid yn fwy tryloyw
Ei gwneud yn haws deall faint o arian sy'n cael ei wario ar wasanaethau PMH ym mhob ardal leol gyda mecanweithiau mwy tryloyw.

2. Mynd i'r afael â materion gweithlu tymor byr a hirdymor
Datblygu cynllun gweithlu cadarn a pharhaus a gefnogir gan fuddsoddiad digonol.

3. Blaenoriaethu tegwch
Gwella dealltwriaeth o fenywod nad yw gwasanaethau presennol yn ateb eu hanghenion cystal, a chymryd camau gweithredu er mwyn i ofal fod yn gyfiawn i bob teulu.

4. Cael safonau ansawdd uchelgeisiol
Dylai safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar gyfer timau cymunedol fod yn uchelgeisiol ac yn berthnasol ar draws y DU.

5. Galluogi profiadau menywod i greu newid
Mae angen clywed lleisiau menywod ac aelodau o'r teulu i helpu gwasanaethau a'r system ehangach i ddeall yn well sut olwg sydd ar ofal o safon.

"Does gen i ddim amheuaeth y byddai fy adferiad wedi bod yn gyflymach a phrofiad fy mhartner yn llai trawmatig pe bawn i wedi bod dan ofal iechyd meddwl amenedigol arbenigol."
Jillian

"Rwyf wedi gweld o lygad y ffynnon y cynnydd yn fy ardal leol a'r gwahaniaeth y mae buddsoddiad wedi'i wneud i ansawdd ac ehangder gofal [PMH arbenigol]. Fodd bynnag, fel cefnogwr cymheiriaid, rwyf hefyd wedi gweld gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd ateb anghenion cynyddol mamau sy'n cael eu cyfeirio yn sgil COVID-19 ac yng nghanol argyfwng costau byw."
Leanne

6. Parhau â'r ymrwymiad i ofal PMH arbenigol
Ar lefel genedlaethol a lleol, mae angen ymrwymiad parhaus fel bod digon o arian ac adnoddau i gynllunio a darparu gwasanaethau PMH arbenigol ar draws y DU.

7. Gwella casglu data a thryloywder
Datblygu prosesau effeithiol i gasglu data, gan gynnwys monitro ar draws grwpiau cydraddoldeb er mwyn nodi anghydraddoldebau. Sicrhau bod mwy o ddata ar gael i'r cyhoedd, felly mae'n gliriach pan fydd cynnydd yn cael ei wneud ac unrhyw fylchau sy'n parhau.

8. Cydgysylltu'r gofal y mae menywod a theuluoedd yn ei dderbyn
Sicrhau bod menywod a theuluoedd yn cael gofal PMH cynhwysfawr ar draws y llwybr clinigol, gyda chyfathrebu clir rhwng gweithwyr proffesiynol ac integreiddio gwasanaethau.

9. Cymryd agwedd sy'n ystyriol o drawma
Dylai pob gwasanaeth iechyd mewn cysylltiad â menywod yn ystod y cyfnod amenedigol fod ag ymagwedd sy'n ystyriol o drawma, gyda'r gofal wedi'i gynllunio i ateb anghenion unigol menywod a'u teuluoedd.

Maternal Mental Health Alliance

International House
12 Constance Street
London E16 2DQ

info@maternalmentalhealthalliance.org
www.maternalmentalhealthalliance.org
@MMHAlliance #EveryonesBusiness

Maternal Mental Health Alliance is a Charitable Incorporated Organisation (CIO) registered in England and Wales (no. 1178152).